Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Medr

**Ebrill 2024 – 2028**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) Medr 2024 2024–2028

### Rhagair

Rydym yn falch o gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf Medr. Mae’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb a’n cyfrifoldebau mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer Medr fel cyflogwr, yn ogystal â’n gwaith gyda’r sectorau addysg drydyddol ac ymchwil, eu staff, dysgwyr a myfyrwyr.

### Medr a’r hyn yr ydym yn ei wneud

Fe wnaeth y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2022) sefydlu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a elwir bellach yn Medr, Corff newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Medr, a ddechreuodd ar ei gyfrifoldebau ym mis Awst 2024, yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio, ansawdd a rheoleiddio’r holl addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion;
- addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi;
- addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned; a hefyd
- prentisiaethau a hyfforddiant.

Rydym wedi penderfynu cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyn cyflwyno ein Cynllun Strategol cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn goleuo ein holl waith cynllunio strategol. Bydd tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i’n diwylliant, gwerthoedd, systemau, polisïau, prosesau a ffyrdd o weithio fel sefydliad.

Fel sefydliad newydd, mae Medr yn ymrwymedig i sicrhau y bydd y broses recriwtio staff yr ydym yn ei datblygu’n denu ymgeiswyr a fydd yn dod ag amrywiaeth o ran meddwl, sgiliau a phrofiadau.

Rydym yn cydnabod bod cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nawr yn cyflwyno rhai heriau i ni. Mae’r rhain yn cynnwys cysoni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol â’n Cynllun Strategol, defnyddio ein tystiolaeth a data sefydliadol ni ein hunain i oleuo’r broses gynllunio a’n gallu i ymgysylltu’n iawn wrth bennu amcanion cydraddoldeb.

I fynd i’r afael â’r heriau hyn, byddwn yn adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu ymhellach a’i wella, wrth i’n Cynllun Strategol ddatblygu. Wrth adolygu’r Cynllun, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwrando ar, ac yn ymateb i, leisiau a phrofiad personol ein staff, y sector trydyddol, sefydliadau allanol sy’n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, undebau llafur, dysgwyr, myfyrwyr, cyflogwyr, sefydliadau sy’n bartneriaid a rhanddeiliaid.

**Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 a'n hamcanion cydraddoldeb yn ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus fel Medr roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfrannu at ein gallu i gwrdd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg drydyddol ac ymchwil integredig a theg yng Nghymru sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn hybu cyfle cyfartal, fel a nodir yng Ngweledigaeth Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd wedi'i oleuo gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y nodau, y ffyrdd o weithio a'r meysydd newid corfforaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cysoni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ategu prosesau penderfynu trwy sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, yn defnyddio dull integredig a chydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

Bydd cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn cyfrannu at gyflawni'r un ar ddeg o ddyletswyddau strategol sydd gennym[1], gan gynnwys hybu cyfle cyfartal a llawer o'r blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi (Chwefror 2024).

Wrth gyhoeddi'r cynllun cyntaf hwn nawr rydym yn cadarnhau sut yr ydym yn bwriadu ymgorffori cyfle cyfartal ym mhopeth a wnawn fel sefydliad, yn y ffordd y byddwn yn gweithio gyda'r sector trydyddol a chyda'n partneriaid. Mae Medr yn barod i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal ac at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**Simon Pirotte OBE**
**Prif Weithredwr**

[1] Hybu dysgu gydol oes; Hybu cyfle cyfartal; Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol; Hybu gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol; Hybu gwaith ymchwil ac arloesi; Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil; Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol; Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg; Hybu cenhadaeth ddinesig; Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Medr 2024-2028

**Mae amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn gyson â'n dyletswyddau strategol allweddol fel corff sy'n rheoleiddio ac yn cyllido addysg drydyddol ac ymchwil.**

**Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn nodi dau amcan cydraddoldeb lefel uchel ac amcanion tanategol. Mae'r CCS yn cael ei gefnogi gan gynllun cyflawni ategol, ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru trwy gydol cyfnod. Byddwn yn adolygu'r CCS yn gyson i sicrhau gwella a datblygiad ymhellach wrth i'r CCS ddatblygu.**

**Yn ystod cyfnod y strategaeth hon rydym wedi pennu'r blaenoriaethau canlynol:**

**Amcan Un: Rydym yn gweithredu fel sefydliad hynod effeithiol gan ddarparu sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod pontio hwn i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i bopeth a wnawn fel sefydliad.**

Byddwn yn:

1. Datblygu systemau a dulliau i ateb ein gofynion rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb gan ystyried dyletswyddau Medr, gan gynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithio yn ysbryd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Cymru) gan gynnwys:
   i. Cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028, cynnwys pobl yn barhaus, adolygu amcanion a monitro cynnydd yn ei erbyn.
   ii. Datblygu a gweithredu proses asesu effaith integredig[2].
   iii. Sicrhau cysondeb strategol rhwng Cynllun Corfforaethol Medr, amcanion ein Datganiad Llesiant ac amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
   iv. Casglu a defnyddio gwybodaeth gyflogaeth berthnasol ar gyfer holl staff Medr i oleuo datblygiadau polisi.
   v. Cynnal dadansoddiad o wahaniaethau/bylchau cyflog ar gyfer holl staff Medr ac adolygu bylchau cyflog posibl yn rheolaidd.
   vi. Sicrhau bod ystyriaethau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael sylw pan ydym yn caffael nwyddau, gwasanaethau a chynhyrchion.
   vii. Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy sicrhau hyfforddiant parhaus ar gyfer staff Medr a Bwrdd Medr.

2. Sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn goleuo gwaith Medr i ddatblygu ei werthoedd a'i ddiwylliant sefydliadol a'i ffyrdd o weithio.

[2] Mae'r proses assesu effaith integredig yn cynnwys: Nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Deddf Cydraddoldeb 2010; Nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy a'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan gynnwys Safonau Iaith Gymraeg Medr.

**Amcan Dau: Rydym yn cyllido, rheoleiddio a chyd-weithio i hybu cyfle cyfartal a lles dysgwyr, myfyrwyr a staff ym maes addysg drydyddol ac ymchwil.**

Byddwn yn:

1. Ymgysylltu âg amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywaieth a chynhwysiant yn cael ei hystyried fel ran o ddatblygiad Cynllun Strategaeth Gorfforaethol Medr.

2. Ymgynghori ynghylch y gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, gan ystyried rheoliadau perthnasol fel y maent yn ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig.

3. Cyllido, adolygu a monitro ystod o flaenoriaethau, rhaglenni a gweithgareddau i ddiwallu anghenion staff, dysgwyr a myfyrwyr, i wella cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach.

4. Hybu a rhannu arfer effeithiol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer staff, ymgeiswyr, dysgwyr, myfyrwyr a chyflogwyr ar draws y system drydyddol ac ymchwil.

5. Datblygu data i adnabod annhegwch yn y system drydyddol ac yn defnyddio'r data yma er mwyn i ddatblygu dealltwriaeth am y rhesymau sylfaenol dros anghydraddoldebau a'r ymyriadau sy'n effeithiol wrth fynd i'r afael â hwy.

**Goleuo ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 fe wnaethom ystyried y canlynol:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011
- Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Anghydraddoldeb Economaidd-Gymdeithasol (Cymru) 2021 Canllawiau Statudol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth ddatblygu'r fersiwn ddiwygiedig o CCS 2022-2024, roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi ystyried goblygiadau nodau llesiant y Ddeddf, ei ffyrdd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2021
- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: Diweddariad
- Llywodraeth Cymru:
  - Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi
  - Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio a chynllun cyflawni
  - Cynllun plant a phobl ifanc
  - Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (Cenedl Noddfa)
Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth
Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru
Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: diweddariad ar gynnydd
Strategaeth Tlodi Plant Cymru
Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft
Strategaeth ddrafft iechyd meddwl a llesiant meddyliol
Cynllun gweithredu ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg

**Mae ffynonellau data ychwanegol yn cynnwys, ymhlith eraill:**

- Data ystadegol Advance HE
- Cyhoeddiadau Colegau Cymru
- Cyhoeddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Monitro data cydraddoldeb hil AU
- Data HESA (a gaiff ei fonitro ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig lle y bo'n bosibl)
- Ymchwil a data sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel Ryngwladol, y DU a Chymru gyfan
- A Yw Cymru'n Decach 2023: Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A Yw Cymru'n Decach?
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (a gaiff ei fonitro ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig lle y bo'n bosibl)
- Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig y dysgwyr, 2017-2021
- Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn
- Adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch 2023
- Data UCAS
- Data cyrff llywodraethu prifysgolion
- Cyhoeddiadau Universities UK
- University and College Union Ymchwil a pholisi cydraddoldeb
- Llywodraeth Cymru: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Adroddiad blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol 2022 i 2023
- Asesiad effaith cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

**Bwlch o ran data ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol**

Rydym yn ymwybodol bod gan Medr, fel Corff newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru, fylchau o ran data a thystiolaeth, gan gynnwys:

- Data cyflogaeth unwaith y bydd wedi'i sefydlu
- Data croestoriadol ar ddysgwyr, myfyrwyr a staff.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**